


Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Sgiliau Iaith Gymraeg - Sut dy ni'n cymharu?

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymhell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

Yn 2011, Sir Gaerfyrddin oedd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg (78,048). Mae hyn wedi gostwng 5,210 i 72,838 a'r sir yn 2il uchaf o ran nifer yng Nghymru erbyn hyn.


Nifer y preswylwyr 3 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2011 a 2021



Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Sgiliau Iaith Gymraeg - Sut dy ni'n cymharu?

Sir Gâr sy'n parhau i fod â'r bedwaredd % uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru er gwaethaf gostyngiad o 4 pwynt canran o 43.9% (2011) i 39.9% yn ôl Cyfrifiad 2021. Dyma'r gostyngiad mwyaf yn y pwynt canran o holl awdurdodau lleol Cymru.





Ffynhonnell: Ystadegau Allweddol Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2022
Cynhyrwyd gan y Tîm Dealltwriaeth Data, Cyngor Sir Gaerfyrddin

Gellir defnyddio'r ystadegau hyn o dan delerau'r [Drwydded Llywodraeth Agored](#)
E-bost: Data@sirgar.gov.uk

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Sgiliau Iaith Gymraeg - Sut dy ni'n cymharu?

Mae % y preswylwyr sydd yn 3 oed a hŷn heb unrhyw sgiliau yn Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu o 41.9% (74,355) yn 2011 i 46.7% (85,287) yn 2021.



Mae bron i 40% (20,000) o drigolion Sir Gâr yn deall Cymraeg llafar. Dyma'r nifer uchaf yng Nghymru er bod hyn wedi gostwng fymryn o'r cyfrifiad blaenorol.


Ffynhonnell: Ystadegau Allweddol Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2022
Cynhyrwyd gan y Tim Dealltwriaeth Data, Cyngor Sir Caerfyrddin

Gellir defnyddio'r ystadegau hyn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored
E-bost: Data@sirgar.gov.uk

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Sgiliau Iaith Gymraeg - Sut dy ni'n cymharu?

Nifer y preswylwyr 3 oed a hŷn sydd yn siarad Cymraeg ond ddim yn ei darllen na'i hysgrifennu

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2011 a 2021




Rydym yn parhau i gael y nifer uchaf o drigolion sy'n gallu siarad ond yn methu darllen neu ysgrifennu Cymraeg gyda 10,578 o bobl. Mae hyn yn cyfateb i 5.8% o boblogaeth 3 a throsodd Sir Gaerfyrddin, yr 2il safle % uchaf. Mae hyn yn parhau i fod yn uchel o'i gymharu ag Awdurdodau eraill.

Mae nifer y trigolion sy'n gallu siarad a darllen ond ni allant ysgrifennu Cymraeg wedi gostwng 2,405 i ychydig dros 5,000 yn 2021, er mai dyma'r nifer uchaf yng Nghymru mae hyn yn cyfateb i 2.8% i lawr o 4.2% yn flaenorol a'r gostyngiad pwynt canran mwyaf o'r holl awdurdodau lleol.

Nifer y preswylwyr 3 oed a hŷn yn siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn ei hysgrifennu

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2011 a 2021




Ffynhonnell: Ystadegau Allweddol Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2022
Cynhyrwyd gan y Tim Dealltwriaeth Data, Cyngor Sir Gaerfyrddin

Gellir defnyddio'r ystadegau hyn o dan delerau'r [Drwydded Llywodraeth Agored](#)
E-bost: Data@sirgar.gov.uk

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Sgiliau Iaith Gymraeg - Sut dy ni'n cymharu?

% Yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2011 a 2021



Mae'r % sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng o 32.8% i 30.9%. Dyma'r gostyngiad pwynt canran mwyaf o'r holl awdurdodau lleol, ond rydym yn parhau i fod y 4ydd % uchaf yng Nghymru.

Sir Gâr sy'n parhau i fod â'r 2il nifer uchaf o bobl sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg er gwaethaf gostyngiad o ychydig dan 2,000, o 58,321 i 56,493.

Nifer y preswylwyr 3 oed a hŷn yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2011 a 2021

